



10 awgrym ar gyfer rheoli arian fel myfyriwr

Gwneud eich arian a'ch dewisiadau pensiwn yn gliriach

Beth bynnag yw eich amgylchiadau, mae HelpwrArian ar eich ochr chi. Ar-lein a thros y ffôn, rydym yn cynnig arweiniad clir sy'n gyflym i'w ddarganfod, yn hawdd ei ddefnyddio ac wedi'i gefnogi gan y llywodraeth. Gallwn hefyd eich cyfeirio at wasanaethau dibynadwy, os oes angen rhagor o gefnogaeth arnoch.

Gallwn ni eich helpu i:

- delio â dyled
- deall eich opsiynau pensiwn
- lleihau eich gwariant a chronni cynilion
- llywio digwyddiadau bywyd megis colli swydd, torperthynas, ymddeol neu brofedigaeth
- cyllidebu ar gyfer biliau neu bryniannau mawr
- dysgu am forgeisi a rhentu
- cael gwybod am fudd-daliadau a hawliadau ychwanegol.

Chwiliwch am HelpwrArian: moneyhelper.org.uk/cy

Arweiniad diduedd am ddim

ar-lein | dros y ffôn

Gan y



**Gwasanaeth
Arian a
Phensiynau**

1. Gosod cyllideb wythnosol

Nid yw cael benthyciad neu grant myfyriwr – neu arian gan deulu neu swydd – yn golygu eich bod yn gyfoethog ar unwaith. Rhaid i'r incwm hwn barhau bob mis neu dymor, felly cyfrifwch gyllideb wythnosol i reoli'ch arian.

Edrychwch ar dudalen HelpwrArian ar **awgrymiadau cyllidebu ar gyfer myfyrwyr** a defnyddiwch un o'r **cyfrifianellau cyllidebu ar Save the Student** neu **Cynlluniwr Cyllideb** HelpwrArian.

2. Sicrhau'r incwm mwyaf posibl a rheoli gwariant

Fel myfyriwr, efallai mai dyma'r tro cyntaf i chi fod yn gyfrifol am reoli'ch arian eich hun. Bydd angen i chi gyllidebu ar gyfer rhent, bwyd, biliau, trafndiaeth a chymdeithasu. Os gallwch gadw eich gwariant dan reolaeth nawr, bydd yn eich helpu i osgoi mynd i broblemau ariannol yn nes ymlaen.

Gyda chostau byw uchel, bydd angen i'ch arian ar gyfer y tymor ymestyn hyd yn oed ymhellach.



Byddwch yn ddoeth wrth gyllidebu a pheidiwch â bod ofn gofyn am help gan rywun yn eich coleg/prifysgol os ydych yn cael trafferth talu am hanfodion.

Cadwch lygad allan am ostyngiadau myfyrwyr wrth siopa neu gofrestru ar gyfer tanysgrifiadau. Byddwch yn gallu defnyddio'ch e-bost myfyriwr neu gerdyn adnabod ar gyfer rhai gostyngiadau, ond gallwch hefyd gofrestru ar gyfer mwy o gostyngiadau **TOTUM, Unidays a**

Student Beans. Byddwch yn ymwybodol, er y gall gostyngiadau eich helpu i arbed arian yn y tymor byr, mae'n hawdd cael eich temptio i orwario. Nid yw'n "10% i ffwrdd" os nad oeddech angen yr eitem yn y lle cyntaf, mae'n debycach i "90% ychwanegol".

Edrychwch ar dudalen HelpwrArian am wybodaeth ynghylch **sut i arbed arian ar filiau.**

3. Deall contractau ar gyfer rhentu neu dalu biliau

Mae'n bwysig deall y canlyniadau y gallech chi – neu eich rhieni/gwarcheidwaid – eu hwynebu am fethu â thalu unrhyw arian sy'n ddyledus wrth lofnodi contract sy'n gyfreithiol-rwym, megis cytundeb tenantiaeth yn eich enw chi. Mae hyn yn berthnasol hyd yn oed os ydych yn rhannu biliau gyda chyd-letywyr.

Os bydd Debyd Uniongyrchol yn methu (mwy nag unwaith), i rywun mae arnoch arian iddynt, gallai hyn gael ei ystyried yn dor-cytundeb, a allai effeithio ar eich sgôr credyd.

Edrychwch ar dudalen HelpwrArian ar **hawliau a chyfrifoldebau tenantiaid yn cael eu hesbonio.**

4. Gwirio sgoriau credyd

Ni fydd cymryd benthyciadau myfyrwyr yn effeithio ar eich sgôr credyd, ond gall mathau eraill o fenthycia, fel trefniadau prynu nawr talu'n ddiweddarach neu gytundebau ffôn wneud hynny.

Mae'n bwysig eich bod yn gwneud ad-daliadau ar amser er mwyn osgoi niweidio'ch sgôr credyd. Dylech bob amser gysylltu â'r cwmnïau y mae arnoch arian iddynt ar yr arwydd cyntaf o anhawster. Gallwch wirio ac olrhain eich adroddiad credyd ar-lein am ddim.

Edrychwch ar dudalen HelpwrArian ar **sgoriau credyd.**

5. Rheoli cyfrif myfyriwr

Cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu myfyriwr yw'r brif ffordd i chi reoli eich arian o ddydd i ddydd.

Gall nwyddau am ddim sy'n dod gyda chyfrif newydd fod yn demtasiwn, ond dylech ystyried ffactorau eraill, megis a oes ap hawdd ei ddefnyddio a beth yw'r gorddrafft di-dâl sydd ar gael. Mae hefyd yn bwysig edrych ar y taliadau a allai fod yn berthnasol os byddwch yn mynd i orddrafft heb ganiatâd.

Edrychwch ar dudalen HelpwrArian ar **cyfrifon myfyrwyr.**

6. Defnyddio gorddrafft di-log

Mae cyfrifo cyllideb i dalu am eich treuliau am y tymor llawn yn gam cyntaf pwysig. Fodd bynnag, mae gorddrafft awdurdodedig di-log yn parhau i fod yn achubiaeth hanfodol i lawer o fyfyrwyr. Gall helpu i leihau'r angen i gymryd mathau drutach o gredyd. Os ewch dros eich gorddrafft di-log neu os ewch i orddrafft anawdurdodedig, codir ffioedd a llog ychwanegol arnoch.

Cofiwch serch hynny, nid arian am ddim yw hwn, a rhaid i chi ei dalu'n ôl ar ôl graddio.

Edrychwch ar dudalen HelpwrArian am gyngor ynghylch **gorddrafftiau** ac ar **reoli dyledion ar ôl graddio**.

7. Cronni cynilion

Gall cyllidebu wythnosol ei gwneud hi'n haws nodi lle gallwch dorri'n ôl a chronni cynilion ar gyfer argyfyngau, waeth pa mor fawr neu fach, a thrwy hynny leihau eich angen i ddefnyddio credyd.

Os byddwch yn sefydlu cyfrif ar wahân ar gyfer eich cynilion, bydd gennych lai o demtasiwn i'w wario na phe bai'r arian yn aros yn eich prif gyfrif myfyriwr.

Os ydych newydd droi 18 oed, a ydych yn ymwybodol y bydd eich cronfa Ymddiriedolaeth Plant yn barod i chi ei ddefnyddio?

Edrychwch ar dudalen HelpwrArian am gyngor ynghylch **cronfeydd ymddiriedolaeth plant** neu ar **gyfrifon cynilo mynediad ar unwaith**.

8. Diogelu pethau gwerthfawr ac eiddo

Sicrhewch fod eich ffôn symudol, gliniadur, beic, ac eiddo arall wedi'u diogelu'n ddigonol rhag ofn y bydd colled, lladrad neu ddifrod.

Gall rhai eitemau gael eu hyswirio oddi cartref, gan yswiriant cynnwys cartref eich rhieni neu warcheidwaid.

Os ydych yn byw ar y campws, gofynnwch a yw yswiriant cynnwys wedi'i gynnwys yn eich costau llety.

Edrychwch ar dudalen HelpwrArian am wybodaeth ynghylch **yswiriant cynnwys** ac, os ydych yn bwriadu gyrru, ar **yswiriant car**.

9. Bod yn effro i sgamiau

Meddwl na fydddech byth yn disgyn am sgam? Mae'n debyg nad yw hynny'n wir. Mae pobl o dan 25 oed chwe gwaith yn fwy tebygol o ddioddef oherwydd troseddwy'r sy'n defnyddio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol na phobl dros 50 oed.

Sicrhewch eich bod yn aros yn effro i sgamiau: gallech gael eich targedu trwy negeseuon testun neu WhatsApp, ebyst neu drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Gallai'r sgamiau hyn fod yn hysbysebu cynlluniau i ddod yn gyfoethog yn gyflym, grantiau llywodraeth am ddim (twyll budd-dal tebygol) neu ofyn i chi fod yn ful arian trwy drosglwyddo arian yn anghyfreithlon rhwng cyfrifon.

Dylech roi gwybod i Action Fraud am unrhyw sgamiau sydd wedi cael eu targedu tuag atoch chi ar unwaith.

Action Fraud. Peidiwch byth â datgelu unrhyw wybodaeth bersonol nac anfon na derbyn arian gan sgamwyr. Gall defnyddio eich cyfrif banc ar gyfer gweithgaredd anghyfreithlon olygu y bydd yn cael ei gau i lawr, sy'n ei gwneud hi'n llawer anoddach derbyn arian o'ch benthyciad myfyriwr neu swydd.

Edrychwch ar dudalen HelpwrArian ar **sgamiau**.

10. Cael trafferth gyda dyled

Os ydych yn cael trafferth gyda dyled neu'n poeni am arian, cysylltwch ar unwaith i gael help am ddim.

Mae gan bob prifysgol a choleg wasanaethau cymorth i fyfyrwyr, ac mae gan lawer ohonynt gynghorwyr arian myfyrwyr ymroddedig, a all eich helpu i weithio allan sut i ddelio â dyledion a chael mynediad at gronfeydd caledi.

Am faterion dyled mwy difrifol, gallwch ddefnyddio **offeryn lleolwr cyngor ar ddyledion HelpwrArian** i ddod o hyd i weithiwr proffesiynol a phrofiadol a all eich helpu am ddim.

Ewch i **wefan HelpwrArian yma**:

Byddwch yn ofalus a deallwch y risgiau o geisio gwneud arian trwy fuddsoddi. Mae myfyrwyr wedi colli symiau mawr o arian trwy ddefnyddio eu benthyciad i wneud buddsoddiadau risg uchel mewn arian cyfred cripto neu ar apiau sy'n gwerthu stociau unigol. Edrychwch ar dudalen HelpwrArian am wybodaeth ynghylch **deall risgiau wrth fuddsoddi**.

HelpwrArian

Mae HelpwrArian yn annibynnol ac yn cael ei gefnogi gan y llywodraeth i'ch helpu i wneud y gorau o'ch arian. Rydym yn rhoi arweiniad arian a phensiynau diduedd am ddim i bawb ledled y DU – ar-lein a thros y ffôn.

Ymwelwch â ni yn moneyhelper.org.uk/cy

Neu cysylltwch â ni ar:

Ffôn

Arweiniad ar arian

DU: **0800 138 7777**

os ydych y tu allan i'r DU

+44 20 3553 2279

Llun – Gwe 8am i 6pm

Arweiniad ar bensiynau

DU: **0800 011 3797**

os ydych y tu allan i'r DU

+44 20 7932 5780

Llun – Gwe 9am i 5pm

Gwe-sgwrs:

moneyhelper.org.uk/moneychat

moneyhelper.org.uk/cy/pensions-chat

WhatsApp

+44 7701 342744

(arweiniad ar arian yn unig)

Cymunedau ar-lein

Ymunwch â'n grwpiau Facebook am

gymorth: moneyhelper.org.uk/cy/blog/everyday-money/come-and-join-our-online-communities



Cynhyrchir y canllaw hwn gan HelpwrArian ac mae hefyd ar gael yn Saesneg. I weld yr ystod llawn o ganllawiau sydd ar gael, ac i ofyn am gopiâu, ewch i **moneyhelper.org.uk/cy/contact-us/free-printed-guides**

Cymraeg

Cysylltu â ni

Arweiniad ar arian **0800 138 7777**

Llun – Gwe 8am i 6pm

Arweiniad ar bensiynau **0800 011 3797**

Llun – Gwe 9am i 5pm

Gwasanaethau trosglwyddo testun **1800 10800 915 4622**

Llun – Gwe 8am i 6pm

WhatsApp **+44 7701 342744**

Gwefan **moneyhelper.org.uk/cy**

Helpwr Arian

Mae galwadau o'r DU am ddim. Er mwyn ein helpu i gynnal a gwella ein gwasanaeth, efallai y byddwn yn recordio neu fonitro galwadau.

Fformatau hygyrch

Os hoffech gael y canllaw hwn mewn Braille, print bras neu fformat sain, cysylltwch â ni ar y rhifau uchod. Gwybodaeth yn gywir ar adeg argraffu (Ebrill 2025). Adolygir y canllawiau hyn unwaith y flwyddyn.